# Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Chwefror 2019

Amser: 13.30 – 15.54

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5267

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Geoff Ryall-Harvey, North Wales Community Health Council<br>Mark Thornton, North Wales Community Health Council<br>Garth Higginbotham, North Wales Community Health Council |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton – – Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Stephen Boyce (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

### 2.1 Rheoli meddyginiaethau: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (17 Ionawr 2019)

## 3 Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Yr Hyn a Ddysgwyd: Sesiwn Dystiolaeth gyda Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

3.1 Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Geoff Ryall-Harvey, y Prif Swyddog; Mark Thornton, y Cadeirydd, a Garth Higginbotham, Is-Gadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru fel rhan o'u hymchwiliad i'r hyn a ddysgwyd yn sgil Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

3.2 Cytunodd Geoff Ryall-Harvey i anfon rhagor o wybodaeth ynghylch:

- Y rhaglen o ymweliadau â chyfleusterau iechyd meddwl ers mis Mai 2017 ynghyd ag unrhyw adroddiadau perthnasol;
- Data sy'n ymwneud â nifer y staff asiantaeth a gyflogir gan wasanaethau iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; a
- Chopi o adroddiad y Cyngor Iechyd Cymuned, Ein Bywydau ar Stop.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Yr Hyn a Ddysgwyd: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Adborth ar waith ymgysylltu'r Aelodau gyda gwasanaethau y tu allan i oriau

6.1 Trafododd yr Aelodau eu hymweliadau diweddar â gwasanaethau y tu allan i oriau.

## 7 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd yr Aelodau benodau terfynol yr adroddiad drafft gan nodi y byddai fersiwn ddiwygiedig yn barod i'w thafod ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 11 Chwefror.

## 8 Cynllun tocynnau bws rhatach Llywodraeth Cymru i bobl ifanc - Fy Ngherdyn Teithio: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

8.1 Trafododd yr Aelodau  adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ymateb Llywodraeth Cymru, gan gytuno i gynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru.

## 9 Gwariant ar staff asiantaeth gan GIG Cymru: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

9.1 Trafododd yr Aelodau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a nododd y byddai'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn edrych ar gostau staff asiantaeth fel rhan o'r gwaith o graffu ar bob bwrdd iechyd dros y flwyddyn nesaf. Cytunodd yr Aelodau i gadw llygad ar y mater hwn.